# #25 Arolwg Glanhau Ardaloedd Cyffredin 2023

(Ionawr 2023)

## Os yw'n bwysig i chi, yna mae'n bwysig i ni

atebgroup.co.uk

## Pam cynnal yr adolygiad hwn?

**Pwrpas y thema:** i gael gwybod yn fwy manwl pam y mae ateb wedi cael rhywfaint o adborth negyddol parhaus am ei **wasanaeth lanhau mewn Ardaloedd Cyffredin**.

### Pryd y gwnaethom gynnal yr arolwg hwn?

Drwy gydol mis Ionawr 2023


**Diolch am eich cefnogaeth!**

**Cawsom wybodaeth gan 190 o'n cwsmeriaid.**


## Dyma ddywedoch chi. . .

### Dyma'r ymatebion a gafodd ni:


Atebwyd gan: 183 Nid atebwyd gan: 7




Atebwyd gan: 91 Nid atebwyd gan: 99




Atebwyd gan: 92 Nid atebwyd gan: 98



Atebwyd gan: 92 Nid atebwyd gan: 98




## 5. Os 'Oes' oedd eich ateb i Gwestiwn 4 uchod, pa dasg(au)?

Atebwyd gan: 35 Nid atebwyd gan: 155

**Dyma rai o'r sylwadau a gofnodwyd gennym:**

"Dyw'r ffenestri ddim yn cael eu glanhau, na'r sgertins chwaith."

"Mae angen i'r lifft a'r llwybrau cerdded fod ar y rhestr lanhau."

"Mwy o amser i gwblhau tasgau'n iawn y tu mewn, ac yn yr ardal sydd y tu allan i'r drws ffrynt."

"Golchi â pheiriant, ond mae wedi gofyn am dap y tu allan er mwyn iddo allu gwneud hynny ei hun."

"Mae angen gwynnu'r prif ddrws mewnol, ond y broblem wirioneddol yw bod angen drws newydd yn lle'r hen un neu bod angen o leiaf ei atgyweirio a'i ailbeintio"

“Y tu allan o gwmpas y biniau”

“Glanhau gwydr mewnol y ffenestri”

“Rwy’n cymryd nad yw peiriannau’r ystafell golchi dillad wedi’u cynnwys ar hyn o bryd. Hynny yw, mae’r drymiau mewnol, sy’n gallu bod yn gartref i firysau a bacteria, yn arbennig o beryglus i gleientiaid hŷn”

“Brwsio’r palmentydd a’r maes parcio cyffredin”

“Byddai’n wych pe bai’r stryd yn cael biniau mawr ag olwynion er mwyn atal sbwriel rhag cael ei wasgaru ar hyd y stryd ar y diwrnodau y caiff gwastraff ei gasglu. Rwy’n gwybod nad yw’n dasg lanhau, ond byddai’n osgoi’r angen i lanhau.”

“Gallai lloriau a phatios gael eu golchi â pheiriant o dro i dro.”

“Gallwn sôn am lawer o bethau — glanhau’r cafnau, ac ati”

“Does neb yn ymateb i adroddiadau am ddiffygion o ran glanhau. Mae carpedi’r ardaloedd cyffredin wedi trochi ac yn frwnt. Nid yw’r prif balmentydd yn cael eu glanhau. Nid yw’r ystafell sbwriel yn lân ac mae dŵr brwnt yn gorchuddio’r llawr.”

“Mae gan y bobl drws nesa’ sothach a baw ci yn eu gardd ffrynt nhw ac ar hyd fy lôn i.”

“Dyw ein hadeilad ni erioed wedi cael ei lanhau’n drwyadl — y ffenestri a’r drysau mewnol, ac ati.”

“Dyw nenfwd, waliau a drysau’r llawr uchaf erioed wedi cael eu glanhau... ers i fi gyrraedd yma.”

“Dylid archwilio pob ardal sy’n gysylltiedig â thai — mae cyflwr fy ardal i yn wael....... mae yna broblemau enfawr.”

“Nid yw’n ymweld bob wythnos — dim ond yn awr ac yn y man, a dweud y gwir.”

“Glanhau drysau a gwydr mewnol.”


“Y rota ar gyfer sbwriel/ailgylchu”

“Cael gwared ar we pry’ cop a nythod pry’ cop a ymddangosodd ar ôl ailaddurno’r lle ac y mae mor amlwg eu bod yn newydd.”


“Mae’n ymddangos nad yw’r llwybrau o gwmpas y fflatiau’n cael eu golchi mwyach â pheiriant — maent yn wyrdd ac yn llithrig ac mae yna lawer o chwyn.”

“Casglu sbwriel”

Atebwyd gan: 90 Nid atebwyd gan: 100




Atebwyd gan: 58 Nid atebwyd gan: 132



## Dyma rai o'r sylwadau a gofnodwyd gennym:

"Ffenestri fflatiau'r tenantiaid; golchi sgertins; dim haearn smwddio yn yr ystafell golchi dillad; y lle storio sgwteri ddim yn cael ei lanhau; y lle storio biniau y tu allan ddim yn cael ei frwsio."

"Yn fodlon iawn yn gyffredinol"

"Ardderchog — gwych"

"Gallai fod yn well, nid yw'n werth yr arian"

"Mae Jan yn ardderchog, a does dim byd yn ormod o drafferth iddi."

"Yn drylwyr iawn"

"...ei sgiliau glanhau — does ganddo ddim syniad. Sut y gallwch chi lanhau lloriau â dŵr oer? Dydw i ddim yn credu ei fod yn rhoi unrhyw ddeunydd glanhau yn y dŵr; at hynny, mae fel pe bai wedi bod yn defnyddio'r mop i fopio'r hewl. Mae safon y glanhau wedi gwaethygu'n sydyn ers i'r glanhäwr diwethaf adael."

"Yn dda iawn, yn drylwyr ac yn gyfeillgar"

"Y glanhäwr gorau ac yn berson cyfeillgar iawn"

"Byddai angen mwy o staff neu fwy o oriau i gyflawni popeth sydd yn y manylebau glanhau."

"Yn hapus â'r gwasanaeth — staff sy'n barod i helpu"

"Mae gennym ddau fan lle caiff ein sbwriel ei gasglu — ac yn un ohonynt mae angen i'r biniau gael eu gosod y tu allan. Mae hynny'n cael ei wneud yn anghywir yn gyson. Ond mewn gwirionedd, byddai mor hawdd datrys y broblem, sef gofyn i'r rheolwr argraffu rota'r cyngor er mwyn ei rhoi i'r cwmni glanhau. Mae'n drueni nad oes gennym reolwr!"

"Nid yw'n cael ei wneud bob wythnos"

"Mae'r llawr yn wlyb yn gyffredinol, ac mae'r coridorau yn rhewllyd neu'n llaith yn gyffredinol"

"Rwy'n credu bod 15 awr yr wythnos efallai'n drefniant rhy hael o ran cyflog, oherwydd mae hynny'n awgrymu bod rhywun yn cael ei gyflogi bob dydd am 3 awr y dydd. Ond a oes rhywun yn monitro hynny? Ac a allwn ni leihau'r tâl wythnosol ar gyfer bil sy'n fil mawr am wasanaeth? 3 awr y dydd am 2 neu 3 diwrnod efallai?"

"Yn aml, nid oes neb yn dod yn lle'r un sy'n glanhau, pan fydd hi ar wyliau, ond rydym yn dal i dalu am y gwasanaeth."

"Mae ein glanhäwr presennol yn dda iawn. Ond nid oes digon o amser wedi'i ganiatáu iddo."

## 8. Ar ba stryd neu ystâd yr ydych yn byw?

Atebwyd gan: 90 Nid atebwyd gan: 100

**Cafodd amrywiaeth eang o leoedd eu henwi, ar draws Sir Benfro, ac nid oedd unrhyw ardal benodol nac unrhyw fath penodol o adeilad yn fwy amlwg na'i gilydd. Dyma rai o'r lleoliadau a enwyd:**

Osprey Drive, Hwlffordd

Dewing Avenue, Skrinkle, Manobier

Croft Court, Penfro

Mayfield Rd, Neyland

Parc Maen Hir, Treletert

Wesley Court, Dinbych-y-pysgod

Williams Court, Arberth

Ocean Drive, Y Garn

Princess Royal Way, Hwlffordd

Knights Court, Tredeml

Plas Peregrine, Aberdaugleddau

Middlehill, Saundersfoot


Bush Street, Doc Penfro

St Davids Close, Aberdaugleddau


Swn y Mor, Tyddewi

The Gables, Doc Penfro

Atebwyd gan: 90 Nid atebwyd gan: 100



Atebwyd gan: 180 Nid atebwyd gan: 10




# Dyma wnaethom ...

## Ar sail canfyddiadau thema e2i, rydym yn bwriadu cymryd y Camau Gwella canlynol:

1. Ffenestri — nodi cyfeiriadau'r bobl y canfuwyd eu bod yn anhapus â safon y gwasanaeth glanhau ffenestri — darganfod pam nad yw'r ffenestri yn cael eu glanhau, er mwyn sicrhau bod hynny'n digwydd
2. Mae angen sicrhau bod manylebau ar gyfer glanhau ardaloedd cyffredin yn fwy eglur, er mwyn lleihau'r posibilrwydd bod yna amwysedd ynglŷn â beth y mae angen ei gyflawni
3. Gwella'r modd y caiff perfformiad contractwyr ei fonitro

Os hoffech drafod â'r staff, a chwsmeriaid eraill ateb, y cynnydd sydd wedi'i wneud o safbwynt cyflawni'r camau gwella hyn, mae croeso i chi ddod i'n Grŵp Cynllunio Arolygon sydd i fod i gwrdd ar 12/09/23, 10:00yb. Cofiwch gadw llygad ar ein gwefan am ddiweddariadau.

## Rydym yn ddiolchgar dros ben i bawb sydd wedi bod yn rhan o'r adolygiad thematig hwn

*Angen gwybod mwy neu godi mater?*

Anfonwch neges ebost atom: **engage@atebgroup.co.uk**

Ewch i'n gwefan: **www.atebgroup.co.uk**

Ffoniwch ni neu anfonwch neges destun atom: **07500 446611**

*Os yw'n bwysig i chi, yna mae'n bwysig i ni*